Ein Stori Lawen

Yr ydym yn Eglwys Blwyf Gymraeg yng nghanol y ddinas ac yr ydym wedi bod yn rhan o fywyd, bwrlwm a thwf Caerdydd ers mwy na chanrif a hanner.

- Mynegwn ein ffydd Gristnogol yn llawen trwy ein haddoliad, ein gwasanaeth a'n cymdeithas mewn awyrgylch sy'n groesawgar, gofalgar a theuluol ei naws.
- Yr ydym yn meithrin ein plant a'n pobl ifanc trwy weithgareddau'r Ysgol Sul a'r gwasanaethau teuluol, a thrwy ein gwasanaethau litwrgaidd, y geiriau a'r gerddoriaeth cawn ein hysbrydoli i addoli a gwasanaethu'r Duw byw.
- Yr ydym yn falch o annog a chefnogi dysgwyr y Gymraeg.
- Mae croeso ac mae lle yn yr eglwys hon i bawb sydd am ystyried neu ailgydio yn eu ffydd neu sy'n chwilio am gartref ysbrydol.

Os am ragor o wybodaeth am Eglwys Dewi Sant:
Ficer/Vicar: Y Parchedig Ganon Dyfrig C. Lloyd
Rhif Ffôn: 029 2056 6001
E-bost: dyfriglloyd@hotmail.com
Y Parchedig Rhian Linecar (*Offeiriad*)
Ffôn: 01446 760 007
E-bost: rlinecar@gmail.com
Y Wardeniaid/Churchwardens:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Delyth Davies – Ffôn: 077 61 118722
E-bost: delyth.d@yahoo.com
Cyfarwyddwr Cerdd:
Ieuan Jones, B. Mus - Ffôn: 074 29 012781
E-bost: ieuanjones@hotmail.co.uk
Trysorydd:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Ysgrifennydd Cymorth Rhodd:
Graham Carson - Ffôn: 029 2069 1860
Ysgrifennydd Cyngor Plwyf:
Marian Fairclough - Ffôn: 07579763030
E-bost: faircloughmarian@gmail.com

Esgobaeth Llandaf + Deoniaeth Caerdydd
EGLWYS DEWI SANT
www.eglwysdewisant.org.uk

CROESO i bawb sydd yn ymweld â'r eglwys heddiw. Cofiwch ymuno â ni am baned a sgwrs yn y neuadd ar ôl y gwasanaeth.

9 Mehefin 2024
Trindod II

10.30am Y Cymun Bendigaid ar gân
Darllenwyr: Dawn King / Tim Saunders
Emynau: 254 (Heathlands); 152 (Bunessan); 280 (Hursley); 206 (All Saints)

6.00pm Yr Hwyrol Weddi
Salm: 35:1-10
Darlleniadau: Jeremeia 7:1-16
Rhufeiniaid 9:14-26
Darllenwyr: Beti Davies / Delyth Davies
Emynau: 457 (Deganwy); 506 (Cysur); 483 (Crüger 333)

YN EIN GWEDDÏAU

Cofiwn yn ein gweddïau y cleifion: Megan Davies, Falmai Griffiths, John Hicks, Eleri Hughes, Ann Wyn Jones, Ann Mears, Patricia Price, Barry Thomas (Offeiriad), Gwenda Williams ac am bawb sy'n gofalu amdanynt.

Gweddïwn hefyd dros bawb a fu farw yn nhangnefedd Crist a thros bawb y cofiwn am eu marwolaeth yr adeg hon o'r flwyddyn. Dyro iddynt, O Arglwydd, orffwys tragwyddol a llewyrched goleuni gwastadol arnynt.

YN YR EGLWYS:

Nos Fawrth 11 Mehefin 2024
6.00pm Ymarfer Côr

Dydd Mercher 12 Mehefin 2024
10.30am Y Cymun Bendigaid

Dydd Sul 16 Mehefin 2024
Trindod III
8.00am Y Cymun Bendigaid
10.30am Y Cymun Bendigaid ar gân
6.00pm Yr Hwyrol Weddi

STONDIN CYNNYRCH CARTREF

Ar ôl y gwasanaeth 10.30am heddiw cynhelir stondin Cynnyrch Cartref er budd Cymorth Cristnogol yn neuadd yr Eglwys ar ôl y gwasanaeth 10.30am.

DATGANIADAU ORGAN

Cafwyd datganiad organ graenus a gafaelgar prynhawn dydd Mawrth diwethaf gyda Gerard Brooks. Clywsom ystod o seiniau cyfoethog yr organ.

Cynhelir datganiad organ arall, y tro hwn o dan nawdd *Cardiff Organ Events,* dydd **Gwener 14 Mehefin am 1.15pm.** Robin Baggs, organydd Eglwys St Pedr, Stratton, Circenester fydd y datgeinydd. Mae'r datganiad hwn yn rhad ac am ddim ond gwneir casgliad ar y ffordd allan.

BORE COFFI A CHLONC

Cynhelir ein bore Coffi a Chlonc dydd Sadwrn 15 Mehefin rhwng 10.30am a 12.00pm. Croeso cynnes i bawb.

CYNHADLEDD Y DDEONIAETH

Cynhelir cynhadledd y Ddeoniaeth nos Iau 13 Mehefin yn eglwys St Marc, Gabalfa am 7.30pm.

CURAD NEWYDD

Ar ddiwedd y mis byddwn yn croesawu curad i EDS, sef yr Athro Lloyd Llewellyn-Jones, athro mewn Astudiaethau yr Hen Fyd ac Astudiaethau Persaidd ym Mhrifysgol Caerdydd. Yn ogystal, y mae'n darlithio yn yr Hen Destament. Bydd yn cael ei urddo'n ddiacon yn Eglwys Gadeiriol Llandaf dydd Sadwrn 22 Mehefin am 11.00pm. Bydd yn parhau i weithio yn y Brifysgol ac yn rhannu ei weinidogaethu ag EDS a Chaplaniaeth y Brifysgol.

BARBECIW HAFOD LON

Cynhelir ein barbeciw blynyddol yng ngardd y Ficerdy nos Wener 28 Mehefin o 6.30pm ymlaen. Croeso cynnes i bawb. Nodwch y dyddiad! Manylion pellach i ddilyn.

Y GANOLFAN GLYD

Diolch i bawb sydd wedi gwirfoddoli i helpu yn y ganolfan glyd heddiw ac ar 4 Awst. Mae'r blychau am wirfoddolwyr i gyd wedi'u llenwi.

CANOLFAN GLYD – DILLAD DYNION

Mae'r ganolfan glyd yn y Tabernacl yn casglu dillad dynion: sanau a dillad-isaf, crysau-t, siwmperi, crysau, cotiau, esgidiau (hen neu newydd). Os hoffech gyfrannu mae bocs pwrpasol yng nghefn neuadd yr eglwys.

AGOR YR EGLWYS Dydd Mercher 12 Mehefin

Yn gwarchod yr eglwys:
Lynette Allen a Delyth Davies

GWEDDÏAU'R SUL

Yn ein gweddïau heddiw, gofynnir inni weddïo dros:

- Talaith de L'Eglise Anglicane Du Congo
- San Ffagan, Aberdâr (Ardal Gweinidogaeth Cynon Uchaf), y Parchedig Richard Green (Arweinydd)

Darlleniadau a Gwyliau

Dydd Llun 10 Mehefin: Effrem y Syriad

I Brenhinoedd 17:1-6; Salm 121; Mathew 5:1-12

Gweddïwn: Esgobaeth De Florida – Eglwys Esgobol Unol Daleithiau America

Hirwaun (Ardal Gweinidogaeth Cynon Uchaf), y Parchedig Peter Godsall (Ficer); Cledwyn Morgan a Cerys Hartley (Darllenwyr Lleyg)

Dydd Mawrth 11 Mehefin: Barnabas, Apostol

Actau 11:19-30; Salm 112; Ioan 15:12-17

Gweddïwn dros: Esgobaeth De Orllewin Florida – Eglwys Esgobol Unol Daleithiau America

Ardal Gweinidogaeth De Cwm Cynon, Arweinydd i'w benodi, Tanya Bennett (Cadeirydd Lleyg)

Dydd Mercher 12 Mehefin:

I Brenhinoedd 18:20-39; Salm 16:1, 6-11; Mathew 5:17-19

Gweddïwn dros: Esgobaeth Fond du Lac – Eglwys Esgobol Unol Daleithiau America

Cofrestrydd yr Esgobaeth, Mrs Harriet Morgan

Dydd Iau 13 Mehefin:

I Brenhinoedd 18:41-46; Salm 65:1, 8-13; Mathew 5:20-26

Gweddïwn dros: Esgobaeth Fredericton, Eglwys Esgobol Canada

Aberaman a Chwmanan (Ardal Gweinidogaeth De Cwm Cynon), y Parchedig Matthew Gibbon (Ficer)

Dydd Gwener 14 Mehefin: Basil Fawr

I Brenhinoedd 19:9-16; Salm 27:7-14; Mathew 5:27-32

Gweddïwn dros: Esgobaeth y Free State – Eglwys Anglicanaidd De Affrica

Penrhiwceibr, Trefathew ac Ynysboeth, y Parchedig Stuart Ghezzi (Ficer)

Dydd Sadwrn 15 Mehefin:

I Brenhinoedd 19:19-21; Salm 16:1-8; Mathew 5:33-37

Gweddïwn dros: Esgobaeth Freetown - Talaith Gorllewin Affrica

Cwmbach (Ardal Gweinidogaeth De Cynon), Ficer i'w benodi

Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Cwmbach, David Anstee, y Pennaeth, y disgyblion a'r disgyblion